WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? – **Cyngor Sir Ynys Môn**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 793A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o waith a berfformiwyd/ a gaiff ei berfformio yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a, pan fo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen, Alan Hughes a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ac mae'n gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ac mae'n gwneud trefniadau i fodloni heriau'r dyfodol 6

Mae'r Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae'r trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith 6

Mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Weithrediaeth 8

Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd 9

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol 11

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014) 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Archwiliodd yr adolygiad hwn ym mhob un o’r 22 o gynghorau yng Nghymru ba mor ‘addas ar gyfer y dyfodol’ yw eu swyddogaethau craffu. Gwnaethom ni ystyried sut y mae cynghorau yn ymateb i heriau presennol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut y mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom ni hefyd archwilio a yw’r cynghorau mewn sefyllfa dda i allu ymateb i heriau’r dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, a’r posibilrwydd o symud tuag at fwy o weithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o’r adolygiad gwnaethom ni hefyd adolygu’r cynnydd y mae cynghorau wedi’i wneud wrth fynd i’r afael â’r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da?** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Gwnaethom ni hefyd waith dilynol ar y cynigion ar gyfer gwella sy’n berthnasol i’r gwaith craffu y gwnaethom eu cyhoeddi mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i gynghorau yn rhan o’n hadolygiadau thematig yn 2016-17 o Gynllunio Arbedion a Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol mewn Gwasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau o sefydlu’r egwyddor datblygiad cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu i gyfrannu at rannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD);
- darparu sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau’r presennol a’r dyfodol;
- helpu aelodau etholedig i sefydlu arferion craffu effeithiol o ddechrau cylch etholaethol newydd; a
- darparu dirnadaeth o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu blaenorol.

4 I lywio ein canfyddiadau, gwnaethom ni seilio ein dull o adolygu ar y Canlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Lywodraeth Leol a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da?**

5 Yn ystod Tachwedd 2017 hyd at Ionawr 2018 gwnaethom adolygu dogfennau, cynnal cyfweliadau a chynnal grwpiau ffocws gyda swyddogion a chynghorwyr allweddol er mwyn deall eu barn ar drefniadau presennol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer craffu. Yn benodol, sut y mae’r Cyngor yn mynd i’r afael â’r heriau a nodir uchod a sut y mae’n bwriadu ymateb iddynt.

6 Gwnaethom ni arsylwi ar sampl o gyfarfodydd trosolwg a chraffu ac adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a roddwyd i aelodau pwyllgorau i gefnogi eu swyddogaeth graffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad fod **y Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac mae'n gwneud trefniadau i wynebu heriau yn y dyfodol**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- bod y Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol yn cael eu rhoi ar waith;
- mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y mae'n eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Weithrediaeth; ac
- mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu i'w roi mewn gwell sefyllfa i fodloni heriau'r presennol a'r dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **C1** | **Dylai swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wella ymhellach trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn gweithgareddau craffu.** |
| **C2** | **Dylai'r Cyngor ategu ei brofiad drwy hunanasesu ychwanegol, er mwyn ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu.** |

# Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ac mae'n gwneud trefniadau i wynebu heriau'r dyfodol

## Mae'r Cyngor yn cefnogi trosolwg a chraffu, ac mae trefniadau sydd eu hangen i helpu aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu i fodloni heriau'r dyfodol ar waith

9 Cyfansoddiad y Cyngor sy'n diffinio'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn y Cyngor. Mae dau bwyllgor craffu'r Cyngor yn cynnal gweithgareddau trosolwg a chraffu, gyda chefnogaeth tri phanel craffu. Mae trefniadau trosolwg a chraffu yn rhan gyfundrefnol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae swyddogion a chynghorwyr yn eu hystyried yn werthfawr. Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cynghorwyr mewn cysylltiad â chraffu yn glir yn y cyfansoddiad ynghyd â disgrifiadau swyddogaethau'r aelodau a'r cadeiryddion, ac mae'r rhaglen hyfforddi aelodau wedi galluogi y rhai sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu i ddatblygu dealltwriaeth glir o'u swyddogaethau.

10 Gofynnodd y Cyngor i'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus[1] egluro swyddogaeth craffu yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae Rhaglen Gwella Craffu'r Cyngor[2] yn nodi'r camau y mae angen i bwyllgorau craffu eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canolig er mwyn gwella perfformiad o ran craffu. Mae'n cydnabod bod craffu yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu her adeiladol fel "cyfaill beirniadol" er mwyn dylanwadu ar welliannau mewn polisïau a gwasanaethau.

11 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar sgiliau craffu a chadeirio effeithiol yn rhan o'r rhaglen cynefino ar gyfer cynghorwyr a rhaglen ddatblygu'r aelodau craffu. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant allanol i ddatblygu gallu'r aelodau i gwestiynu yn effeithiol ac i ddadansoddi gwybodaeth a thystiolaeth a gyflwynir, ac maent wedi sicrhau gwasanaethau gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) er mwyn cael cymorth i ddatblygu capasiti aelodau'r pwyllgorau i ymgymryd â chraffu ariannol. Gwerthfawrogir yr hyfforddiant a ddarperir ymhlith yr aelodau a'r swyddogion, ac maent wedi sôn am yr effaith gadarnhaol a gafwyd ar allu'r aelodau i gwestiynu a chraffu'n effeithiol. Dywedodd sawl aelod pwyllgor eu bod wedi nodi gwelliant yn lefel yr herio a'u bod yn disgwyl i hyn barhau.

12 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen cryfhau'r gwaith o graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae eisoes wedi dechrau craffu ar elfennau o weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys ei gynllun llesiant

[1] https://www.cfps.org.uk/

[2] http://www.anglesey.gov.uk/download/63274

drafft ym Mawrth 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynllunio eitemau ychwanegol i archwilio gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddiweddarach yn 2018 ac yn 2019, gan ei fod wedi cydnabod bod angen egluro a chryfhau'r gwaith craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Mae cynllun gweithredu'r Rhaglen Gwella Craffu yn nodi'r angen i:

- ddatblygu blaenraglen waith y Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio er mwyn adolygu'r trefniadau llywodraethu;
- canolbwyntio ar graffu ar effaith cydweithredu a gweithio mewn partneriaethau ar wasanaethau lleol;
- gweithredu fel ymgynghorydd statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant;
- monitro'r cynnydd ar weithredu'r cynllun llesiant a chymryd rhan yn y cylch cynllunio; a
- daw manylion y ffrwd waith hon yn gliriach yn dilyn dyddiad cyhoeddi cynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

13 Mae'r Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio wedi ymgysylltu â chwe phartner yn ystod 2017-18, gan sicrhau y creffir ar weithio mewn partneriaeth ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen blaenoriaethu a chanolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol ac ystyried eu heffaith ar gyflawni gwasanaethau yn lleol. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio ym mis Mehefin 2018 yn nodi partneriaethau allweddol a gafwyd yn ystod 2017-18, gan nodi nodweddion craffu effeithiol ar bartneriaethau, a nodi partneriaethau allweddol gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w blaenoriaethu yn y flaenraglen waith ar gyfer y ddwy i dair blynedd nesaf.

14 Soniodd aelodau'r pwyllgor trosolwg a chraffu â pharch am y cymorth y maent yn ei gael gan y ddau swyddog cymorth craffu yn y Cyngor. Mae swyddogion cymorth craffu yn darparu cymorth ac yn helpu i hwyluso gwaith y cyfarfodydd craffu, ac maent yn hollbwysig wrth ddarparu cyfleoedd datblygu i aelodau. Gall y swyddogion, yn ôl yr angen, greu gwybodaeth briffio ychwanegol, sydd o gymorth i aelodau pwyllgorau wrth ddatblygu dealltwriaeth o'r pwnc y maent yn craffu arno. Mae swyddogion hefyd yn darparu cwestiynau craffu allweddol y gall aelodau pwyllgorau eu defnyddio os dymunent. Dywedodd sawl un ohonynt y bu hyn yn ddefnyddiol iawn yn gynnar yn eu swyddi fel aelodau craffu, ac o ganlyniad i hyn, roeddent yn gallu datblygu eu cwestiynau eu hunain wrth i'w profiad gynyddu. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn gefnogol o'r trefniadau hyn a rhoddwyd clod i'r hwyluswyr am godi safon cyfarfodydd y pwyllgor.

15 Mae ansawdd y papurau y gwelsom yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor craffu yn dda yn gyffredinol, ac mae'r Templed Adroddiad Craffu yn darparu egwyddorion arweiniol ar gyfer yr aelodau craffu gan gynnwys cyfeiriadau at bum ffordd o weithio y Ddeddf LlCD. Roedd y Cynghorwyr yn ymwybodol bod capasiti y swyddogion yn gyfyngedig yn y swyddogaeth cymorth craffu a mynegwyd y farn y

gallai fod o fudd cael swyddog arall, ond cydnabuwyd hefyd bod anawsterau o ran adnoddau yn wynebu'r Cyngor.

16 Mae swyddogion a chynghorwyr yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r heriau y bydd y swyddogaeth graffu yn eu hwynebu yn y dyfodol, megis cyllidebau is a rhagor o bwyslais ar weithio'n rhanbarthol. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r swyddogaeth graffu esblygu i allu bodloni heriau ariannol a rhanbarthol yn y dyfodol, ac mae'r flaenraglen waith yn cynnwys nifer o eitemau agenda ynglŷn â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau.

## Mae arfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwella, mae'r amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth y maent yn eu defnyddio wedi cynyddu, ac mae blaenraglen waith y pwyllgorau craffu yn alinio â gwaith y Weithrediaeth

17 Mae gan bwyllgorau craffu flaenraglen waith benodol iawn, sy'n nodi'r llwyth gwaith ar gyfer chwe mis i flwyddyn ymlaen llaw. Wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith mae pwyllgorau yn ystyried gwybodaeth o lawer o ffynonellau gan gynnwys y Weithrediaeth, y Prif Weithredwr / y Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Cynllun Corfforaethol yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol eraill. Mae prosesau blaengynllunio gwaith y Pwyllgor Craffu wedi gwella yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n ganlyniad i drafodaethau rhwng y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu, yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr fel rhan o'r fforwm craffu. Cynhelir sesiynau briffio misol ar faterion strategol/gwasanaeth allweddol sy'n helpu i lunio'r blaenraglenni gwaith, ac mae'n eitem sefydlog ar agendau cyfarfodydd craffu.

18 Mae'r Blaenraglenni Gwaith Craffu yn ymwneud â gwella monitro yn bennaf, ac mae llai o bwyslais ar ddatblygu polisïau a chraffu cyn y gwneir penderfyniad. Mae'r Pwyllgorau craffu wedi lleihau nifer yr eitemau agenda ar gyfer swyddogion, Paneli, a phartneriaid allanol. Mae'r Pwyllgorau craffu yn cael eitemau agenda gan swyddogion, Paneli, a phartneriaid allanol. I gryfhau'r blaenraglenni gwaith ymhellach, mae angen i bwyllgorau ystyried y dull gorau o graffu, a allai fod y tu allan i leoliad pwyllgor.

19 Mae pwyllgorau trosolwg a chraffu yn herio aelodau arweiniol a swyddogion yn rheolaidd yn ogystal â'u dwyn i gyfrif. Nodir swyddogaeth aelodau mewn cysylltiad â chraffu yn glir yn nisgrifiadau swyddogaeth Aelodau Pwyllgor Craffu, a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu. Mae'r aelod arweiniol perthnasol yn cyflwyno y rhan fwyaf o eitemau ar yr agenda a darperir cymorth a manylion pellach gan swyddogion.

20 Roedd y pwyllgorau craffu y gwnaethom arsylwi arnynt yn cael eu cynnal yn dda. Gwelsom enghreifftiau o herio cadarn a dadl ar sail gwybodaeth gadarn. Mae cadeiryddion yn annog yr aelodau i gymryd rhan ac yn sicrhau bod y trafodaethau yn parhau i ganolbwyntio ar y materion. Mae'r pwyllgorau craffu hefyd yn

blaenoriaethu eitemau agenda er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer y pynciau unigol.

21 Gwnaeth y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ymdrech i gynnwys cyfraniadau allanol megis rhai gan bobl ifanc (Llais Ni) ac oedolion (y Panel Dinasyddion) yn y trefniadau i graffu ar gyllideb 2018-19, ac mae bellach yn rhan gynyddol bwysig o benderfyniadau allweddol yn y Cyngor ac fe'i blaenoriaethir felly e.e. pennu cyllidebau/moderneiddio ysgolion. Nid yw ymgysylltiad o'r fath wedi'i ymwreiddio'n llawn yn yr holl waith craffu.

22 Mae cyfraniad y cyhoedd at y prosesau trosolwg a chraffu yn fwy cyfyngedig yn gyffredinol, ac mae presenoldeb y cyhoedd mewn cyfarfodydd pwyllgorau yn brin ac yn gyfyngedig i faterion dadleuol. Nid yw cyfarfodydd yn cael eu hysbysebu yn nerbynfa'r Cyngor ac nid oes gweithdrefn glir ar gyfer croesawi'r cyhoedd. Nid yw'r Cyngor yn gweddarlledu cyfarfodydd eu pwyllgorau trosolwg a chraffu ychwaith. Er y ceir enghreifftiau o ymgysylltu â'r cyhoedd yn y prosesau craffu, mae lle i'r Cyngor ddefnyddio 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, wrth wella'r ffordd y mae'r prosesau craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid.

## Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu at welliannau mewn perfformiad a gwneud penderfyniadau, ac mae'r Cyngor yn gwerthuso ei effeithiolrwydd yn rheolaidd

23 Cyflwynwyd enghreifftiau, gan gynghorwyr a swyddogion, o bwyllgorau trosolwg a chraffu yn cyfrannu at atebion i broblemau cydnabyddedig, er enghraifft newidiadau i amlder y casgliadau gwastraff gweddilliol, lleoliadau safleoedd sipsiwn a theithwyr, a chodi safonau addysgiadol mewn ysgolion a moderneiddio ysgolion yn wardiau Llangefni a Seiriol. Mae'r Cyngor wedi codi pwysigrwydd 'cau'r ddolen', a thrwy gael cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith craffu i'r Weithrediaeth. Mae arfer da cadeiryddion y Pwyllgor Craffu sy'n cadeirio Canfyddiadau'r gwaith craffu i'r Weithrediaeth wedi'i ffurfioli yng nghyfansoddiad y Cyngor.

24 Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu yn rheolaidd ac mae wedi nodi cynnydd da mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- gweledigaeth newydd ar gyfer craffu, y cytunwyd arni gan y Weithrediaeth, y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion craffu, yn ogystal â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;
- alinio yn well rhaglenni gwaith Gweithredol, Craffu a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth;
- rhagor o bwyslais ar agweddau strategol ar y rhaglen waith graffu;
- blaenoriaethu eitemau gan ddefnyddio meini prawf cadarn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a gwella effeithiau;

- cyflwyno tri phanel craffu i ganolbwyntio ar safonau ysgolion, gwella gwasanaethau plant a chraffu ariannol; a
- dechrau ymgysylltu mwy â'r cyhoedd, drwy, er enghraifft, cynnwys cyfraniadau gan blant a phobl ifanc (Llais Ni) ac oedolion (Panel y Dinasyddion) yn rhan o'r broses pennu cyllidebau.

25 Mae Rhaglen Gwella Craffu ar waith yn nodi nifer o welliannau a gynlluniwyd i wireddu potensial y swyddogaeth graffu. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu ar 18 o bwyntiau sy'n nodi'r canlyniadau a ddisgwylir, cyfrifoldeb am gyflawni, amserlen, a statws.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae craffu yn darparu atebion hyfyw yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae aelodau craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod yr wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth graffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth graffu ei harwain gan Aelodau ac mae'n 'berchen' ar ei rhaglen waith, drwy ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned â materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn rhoi sicrwydd a chydbwysedd ar sail tystiolaeth i brosesau gwneud penderfyniadau y Weithrediaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth graffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth graffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o'r adroddiad o astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da?' (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da?**Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• ddarparu sail resymegol glir ar gyfer pynciau;<br>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cynghorau |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru